**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS,
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

17 Ebrill 2025

Annwyl Huw,

Dull o ystyried Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn y Senedd ym mis Mehefin 2025. O ystyried pwnc y Bil, rhagwelwn y caiff ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) ar gyfer craffu arno.

Efallai eich bod yn gwybod bod y Pwyllgor yn craffu ar ddau Fil ar hyn o bryd, sef: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Mae'n hanfodol ein bod yn gallu rheoli ein gwaith craffu ar filiau yn effeithiol dros y misoedd nesaf. Am y rheswm hwnnw, rydym yn awgrymu dull gweithredu creadigol mewn cysylltiad â Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Yn amodol ar gytundeb y Senedd ar egwyddorion cyffredinol Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), bydd gwaith craffu yng Nghyfnod 2 yn dechrau yn nhymor yr hydref. Rydym yn awyddus i leihau'r gorgyffwrdd rhwng gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a chraffu Cyfnod 2 ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Yr hyn y byddem yn ei ddewis yn bendant, felly, fyddai cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allanol ar Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) cyn diwedd tymor yr haf. Fodd bynnag, anfantais y cynnig hwn yw y bydd, yn ymarferol, yn lleihau'n sylweddol yr amser sydd ar gael i randdeiliaid allweddol baratoi tystiolaeth ysgrifenedig cyn eu sesiynau tystiolaeth lafar yn ôl eu trefn.

Mae disgwyl mawr am Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Ymhellach, yn seiliedig ar eich honiad y bydd y Bil yn un o'r "darnau o ddeddfwriaeth mwyaf

arwyddocaol y bydd y Senedd hon wedi'u gweld", rydym yn rhagdybio y bydd yn hirfaith ac yn gymhleth. Mae'n hanfodol, felly, rhoi digon o amser i randdeiliaid allanol baratoi i roi tystiolaeth. I'r perwyl hwn, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol i Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a deunyddiau cysylltiedig, fel y Memorandwm Esboniadol, gael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ym mis Mai, cyn cyflwyno'r Bil. Byddai hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol ystyried y cynigion yn y Bil drafft yn gynnar yn y broses. Byddwch yn cofio fod dull tebyg wedi'i fabwysiadu ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), er bod hynny am reswm gwahanol, h.y. i alluogi'r Pwyllgor i gymryd tystiolaeth ac adrodd ar y Bil drafft yn absenoldeb gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

Rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi bod y Pwyllgor yn canfod ei hun mewn sefyllfa anodd, yn gorfod craffu ar ddau fil ar yr un pryd, a disgwylir trydydd Bil yn fuan. Ni fyddem, wrth gwrs, am i'n dull gweithredu arfaethedig osod cynsail a fyddai'n arwain at lai o amser ar gael i Bwyllgorau'r Senedd gynnal gwaith craffu ar filiau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol ac mae angen dull gweithredu creadigol gan Lywodraeth Cymru. Os na allwch ystyried y cynnig hwn, mae'n debygol y bydd angen i'r Pwyllgor ofyn am ragor o amser ar gyfer craffu yng Nghyfnod 1 ar Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) maes o law. Gofynnwn i chi ystyried ein dull gweithredu arfaethedig cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.